

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad cyhoeddi: 1 Ebrill 2017

STATWS: CYDYMFFURFIO

CATEGORI: Y GWEITHLU

Teitl: Gweithredu model a arweinir gan y cyflogwr ar gyfer goruchwyliaeth glinigol bydwragedd yng Nghymru.

Dyddiad yr Adolygiad – 1 Ebrill 2019

I'w weithredu gan:

Prif Weithredwyr y Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Nyrsio y Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr gweithlu a datblygu sefydliadol
y Byrddau Iechyd
Penaethiaid bydwreigiaeth y Byrddau Iechyd

Angen gweithredu erbyn: 1 Ebrill 2017

Anfonwr: Yr Athro Jean White – Prif Swyddog Nyrsio

Enw(au) Cyswllt Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru :

Karen Jewell – Swyddog Nyrsio (Mamolaeth a Blynnyddoedd Cynnar), Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio 03000 825218

Dogfennau Amgaeedig: Goruchwyliaeth Glinigol Bydwragedd yng Nghymru 2017



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Goruchwyliaeth bydwragedd a arweinir gan gyflogwyr - Cymru

Pwrpas

Rhoi gwybod am y gofyniad i weithredu model newydd Goruchwyliaeth Glinigol ar gyfer Bydwragedd yng Nghymru

Cefndir

O ganlyniad i ymchwiliadau i wasanaethau mamolaeth yn Ymddiriedolaeth Sefydliedig GIG Morecambe Bay, lle argymhellodd yr Ombwdsmon Seneddol ac Iechyd (PHSO 2013) y dylai goruchwyliaeth a rheolaeth ym maes bydweigiaeth gael eu cadw ar wahân, ac mai'r Cyngor Nyrsio a Bydweigiaeth a ddylai reoli gweithgarwch rheoleiddio'n uniongyrchol.

Er mwyn dod â goruchwyliaeth statudol i ben, roedd gofyn am newidiadau i ddeddfwriaeth a gafodd eu harwain gan Lywodraeth y DU drwy ddiwygiadau i Orchymyn Adran 60. Bellach mae'r rhain wedi eu pasio, a byddant yn cael effaith ar 1 Ebrill 2017

Wrth ddatblygu model newydd ar gyfer goruchwyliaeth glinigol, mae Swyddogion Nyrsio'r DU, ynghyd â chynrychiolwyr o'r Cyngor Nyrsio a Bydweigiaeth, Coleg Brenhinol y Bydwragedd, a'r rhwydwaith Bydwragedd Arweiniol Addysg, ynghyd â Chynghorwyr ar Fydweigiaeth i Lywodraeth, a'r Adran Iechyd wedi cytuno ar egwyddorion ar gyfer goruchwyllo bydwragedd a ddefnyddir fel sail i un model i'w ddefnyddio gan bedair gwlad y DU

Y Model

Bydd y model ar gyfer Cymru yn ymgorffori egwyddorion y DU ac elfennau gorau'r model presennol sy'n sicrhau addasrwydd ar gyfer y dyfodol (2014), a bydd yn meddu ar y nodweddion canlynol:

- Caiff ei arwain gan y cyflogwr
- Bydd yn cynnal rôl ddynodedig ar gyfer goruchwylwyr clinigol bydwragedd (amser llawn gyda hyd at 20% o gyfrifoldeb clinigol)
- Bydd yn darparu ar gyfer goruchwyllo grwpiau
- Bydd yn sefydlu Dangosyddion Perfformiad Allweddol a gaiff eu gweithredu gan Lywodraeth Cymru i fonitro perfformiad Byrddau Iechyd o ran darparu goruchwyliaeth glinigol ar gyfer bydwragedd. Bydd yn

rhaid i oruchwylwyr clinigol bydwagedd baratoi adroddiad blynyddol ar gyfer penaethiaid bydwreigiaeth yn unol â gofynion y bwrdd ynghylch perfformiad bydwreigiaeth a bennir gan Lywodraeth Cymru.

- Bydd yn darparu proffil o rôl goruchwylwyr clinigol bydwagedd
- Bydd yn nodi egwyddorion ar gyfer gofynion addysgol ar gyfer paratoi goruchwylwyr clinigol bydwagedd
- Bydd ganddo strwythurau llywodraethu clir mewn perthynas â chyfrifoldeb ac atebolrwydd.
- Bydd yn darparu cynllun ar gyfer monitro a gwerthuso'r rôl

Gweithredu

Bydd pob Bwrdd Iechyd yng Nghymru yn recriwtio ar gyfer gweithredu'r model newydd ar gyfer goruchwyliaeth glinigol bydwagedd erbyn 31 Gorffennaf 2017. Bydd pob goruchwyllydd clinigol unigol yn gyfrifol am oruchwyllo 125 o fydwagedd. Mae'r cyfrifiad hwn yn seiliedig ar y model presennol (2014) ar gyfer sicrhau bod goruchwyliaeth yng Nghymru yn addas ar gyfer y dyfodol. Bydd yn ofynnol i oruchwylwyr clinigol bydwagedd feddu ar hygyrddedd clinigol, a byddant yn treulio hyd at 20% o'u hamser mewn ymarfer clinigol sy'n cefnogi bydwagedd.

Er mwyn dod yn oruchwyllydd clinigol, bydd yn ofynnol i fydwraig ddangos ei bod wedi cwblhau rhaglen dysgu academaidd ffurfiol yn llwyddiannus. Bydd yn ofynnol iddi fod wedi cwblhau modiwl MSc gwerth o leiaf 20 o gredydau mewn arweinyddiaeth glinigol a fydd yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

Rhaid i oruchwylwyr clinigol bydwagedd gael amser dynodedig bob blwyddyn i ddatblygu cynllun gwaith, a chymryd rhan mewn goruchwyliaeth grŵp ac adolygiadau gan gymheiriaid. Cynhelir sesiynau datblygiad proffesiynol parhaus yn chwarterol i oruchwylwyr clinigol bydwagedd yng Nghymru, er mwyn rhoi cyfle iddynt gyfarfod, rhannu dysgu, a thrafod themâu a thueddiadau. Bydd hynny'n cael ei hwyluso gan uwch-arweinwyr proffesiynol o Wasanaethau Mamolaeth y Byrddau Iechyd ledled Cymru.

Mathau o ymgysylltu

Bydd goruchwylwyr clinigol bydwagedd yn ymgysylltu ar dair lefel benodol, sef:

1. Gorfodol / Ffurfiol

Pedair awr y flwyddyn – rhaid i ddwy o'r oriau hyn ymwneud â goruchwyllo grwpiau

2. Argymell

Ar adegau tyngedfennol yng ngyrfa bydwaig, er enghraifft:

- Newid rôl
- Yn dilyn cyfnod o absenoldeb salwch tymor hir
- Dychwelyd ar ôl absenoldeb mamolaeth
- Dychwelyd ar ôl toriad mewn gyrfa

- Cyngor neu arweiniad ar faterion yn ymwneud â gyrfa

3. Ar gais / anffurfiol

Caiff bydwaig ddewis fynychu digwyddiadau at ddibenion goruchwyliaeth, ee dod i gyfarfod grŵp / fforwm a arweinir gan oruchwylydd clinigol bydwagedd. Mae'n bosibl na fyddai angen myfyrio'n ffurfiol yn y cyd-destun hwn, ac y byddai hynny'n digwydd yn anffurfiol ymysg cymheiriaid. Fodd bynnag, bydd yn bwysig sicrhau bod bydwagedd yn cael cyfleoedd myfyrio un-i-un yn ogystal â goruchwyliaeth mewn grwpiau.

Gall cymorth un-i-un gan oruchwylydd clinigol fod yn fuddiol ar adegau penodol, megis adegau o straen, newid, neu her, er mwyn cael cyngor ac arweiniad. Hefyd gallai fod adegau pan fo angen y cymorth hwn, er enghraifft os bydd angen ar fydwaig arweiniad ynghylch cwblhau'r rhaglenni dysgu penodol sefydliadol a ddilynir fel unigolyn ym meysydd megis gallu/sgiliau.

Monitro a gwerthuso'r model

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu grŵp gweithredu a monitro, a bydd ei waith yn cynnwys gwerthusiad a gomisiynir yn 2017/18.